

Cyfrinachedd: datgelu gwybodaeth at ddibenion cyflogaeth, yswiriant a dibenion tebyg

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion* rydym yn nodi:

- 115** Efallai y bydd trydydd partion, megis cwmni yswiriant neu gyflogwr claf, neu adran o'r llywodraeth neu asiantaeth sy'n asesu hawl hawliwr i gael budd-daliadau, yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol am glaf, naill ai'n dilyn archwiliad neu o gofnodion sy'n bodoli eisoes. Yn yr achosion hyn:
- a** dylech deimlo'n fodlon bod y claf yn meddu ar wybodaeth ddigonol am gwmpas, diben a goblygiadau tebygol y gweithgarwch archwilio a datgelu, a'r ffaith nad oes modd gwrthod darparu neu gelu gwybodaeth berthnasol
 - b** dylech sicrhau neu fod wedi gweld caniatâd ysgrifenedig i'r datgeliad gan y claf neu gan unigolyn sy'n meddu ar awdurdod cywir i weithredu ar ran y claf. Gallwch dderbyn sicrhau gan swyddog mewn asiantaeth neu adran o'r llywodraeth neu gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n gweithredu ar eu rhan, bod y claf neu unigolyn sy'n meddu ar awdurdod cywir i weithredu ar eu rhan, wedi rhoi eu caniatâd
 - c** dim ond gwybodaeth ffeithiol y mae modd i chi ei chadarnhau y dylech ei datgelu, a'i chyflwyno mewn ffordd ddiduedd ac sy'n berthnasol i'r cais.

Ni ddylech ddatgelu'r cofnod cyfan fel arfer, er y gallai fod yn berthnasol i rai budd-daliadau a delir gan adrannau'r llywodraeth ac i asesiadau eraill o hawl cleifion i gael pensiynau neu fudd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig gydag iechyd

- d** dylech gynnig dangos i'ch claf neu roi copi i'ch claf o unrhyw adroddiad y byddwch yn ei ysgrifennu amdanynt at ddibenion cyflogaeth neu yswiriant, cyn y bydd yn cael ei anfon, oni bai:
 - i** eu bod eisoes wedi nodi nad ydynt yn dymuno'i weld
 - ii** y byddai ei ddatgelu yn debygol o achosi niwed difrifol i'r claf neu i unrhyw un arall
 - iii** y byddai ei ddatgelu yn debygol o ddatgelu gwybodaeth am unigolyn arall nad ydynt yn rhoi eu caniatâd.¹

Am yr arweiniad hwn

- 2** Un o ddyletswyddau craidd meddyg yw sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf². Ceir nifer o amgylchiadau, fodd bynnag, lle y gofynnir i chi ddatgelu gwybodaeth o gofnodion sy'n bodoli eisoes neu ar ôl archwilio claf efallai, a lle y byddwch yn wynebu rhwymedigaethau deul. Mae hyn yn golygu bod gennych chi rwymedigaethau i'r claf ac i'r unigolyn neu'r sefydliad sydd wedi gofyn am y wybodaeth.

- 3 Mae'r arweiniad esboniadol hwn yn nodi sut y mae'r egwyddorion cyffredinol yn ein harweiniad Cyfrinachedd yn berthnasol pan gaiff gwybodaeth am glaf ei datgelu yn yr amgylchiadau hyn. Mae'r arweiniad yn berthnasol i'r cam o ddatgelu gwybodaeth a geir gan glaf yn uniongyrchol, neu o gofnod meddygol claf, neu gan weithiwr iechyd proffesiynol arall. Nid yw'n berthnasol os yw'ch safbwyntiau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr unigolyn neu'r corff sy'n comisiynu'r farn yn unig.

Pryd mae rhwymedigaethau deul yn codi?

- 4 Fel arfer, bydd rhwymedigaethau deul yn codi pan fydd meddyg yn gweithio i, neu'n cael eu contractio gan, neu fel arall yn darparu gwasanaethau ar gyfer:
- cyflogwr claf (fel meddyg iechyd galwedigaethol)
 - cwmni yswiriant
 - asiantaeth sy'n asesu hawl hawliwr i gael budd-daliadau
 - yr heddlu (fel llawfeddyg yr heddlu)
 - y lluoedd arfog
 - gwasanaeth y carchardai, neu
 - gymdeithas neu dîm chwaraeon.³
- 5 Neu, efallai y bydd unigolyn neu sefydliad nad ydych wedi cael unrhyw berthynas uniongyrchol gyda nhw yn y gorffennol, megis cyflogwr neu gwmni yswiriant eich claf, yn gofyn i chi ddarparu adroddiad meddygol neu wybodaeth am glaf. Efallai y cynigir taliad i chi am eich amser a'ch ymdrech neu am amser ac ymdrech eich staff, gan arwain at rwymedigaeth sy'n ychwanegol i'r un y mae gennych tuag at eich claf.

Faint o wybodaeth y dylech chi ei datgelu?

- 6 Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais y dylech ei darparu, sy'n golygu na ddylech ddatgelu cofnod cyfan gwbl claf fel arfer.⁴ Ceir dwy eithriad i'r rheol gyffredinol hon.
- Hawlio budd-daliadau: gallai cofnod cyfan y claf fod yn berthnasol i rai budd-daliadau a delir gan adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth.⁵
 - Prosesau cyfreithiol: efallai y bydd angen i gyfreithiwr weld cofnod cyfan gwbl eu claf er mwyn asesu pa rannau sy'n berthnasol, er enghraifft, i hawliadau anafiadau personol. Os bydd yr hawliad yn mynd yn ei flaen, efallai y bydd yr unigolyn y mae'r hawliad yn cael ei wneud yn eu herbyn, yn gofyn am gopiâu o ddogfennau pwysig, a allai gynnwys cofnodion sy'n cynnwys hanes meddygol y claf. Dan reolau llysoedd barn yng Nghymru a Lloegr, gallant weld cofnod cyfan y claf a dylai'r cyfreithiwr esbonio hyn i'r claf. Yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, dylech ddatgelu cofnodion yn unol â dymuniadau eich claf, neu'n unol â'r hyn a fydd yn cael ei orchymyn gan lys.⁶

Ysgrifennu adroddiadau

- 7 Wrth ysgrifennu adroddiad⁷ rhaid i chi:
- a sicrhau nad yw'n anghywir neu'n gamarweiniol – rhaid i chi gymryd camau rhesymol i ddilysu'r wybodaeth yn yr adroddiad, ac ni ddylech hepgor unrhyw wybodaeth berthnasol yn fwiadol
 - b cyfyngu'r adroddiad i feysydd y mae gennych chi brofiad uniongyrchol ynddynt neu wybodaeth berthnasol amdanynt
 - c sicrhau bod unrhyw farn y byddwch yn ei chynnwys yn gytbwys, a'ch bod yn gallu nodi'r ffeithiau neu'r tybiaethau y seiliwyd y farn honno arnynt.

Datgelu adroddiad am glaf

- 8 Nid oes angen i chi ofyn am ganiatâd ar wahân i ryddhau adroddiad yn dilyn archwiliad ar yr amod eich bod yn teimlo'n fodlon bod y claf wedi rhoi caniatâd ar sail gwybodaeth i'r archwiliad ac i'r cam o ryddhau unrhyw adroddiadau dilynol (gweler paragraff 115 *Cyfrinachedd*, a atgynhychir ar frig yr arweiniad esboniadol hwn).
- 9 Fel arfer, fodd bynnag, dylech gynnig dangos unrhyw adroddiad i'ch claf y byddwch yn ei ysgrifennu amdanynt at ddibenion cyflogaeth neu yswiriant cyn ei anfon, neu roi copi iddynt ohono.⁸
- 10 Os bydd claf yn gofyn i chi ddiwygio adroddiad, dylech gywiro unrhyw gamgymeriadau ffeithiol ac unrhyw farn sy'n seiliedig ar gamgymeriadau ffeithiol. Ni ddylech ddileu gwybodaeth, barn na chynghor os ydych o'r farn y byddai'r adroddiad yn anghywir neu'n gamarweiniol o ganlyniad.
- 11 Os bydd claf yn tynnu yn ôl eu caniatâd i'r adroddiad gael ei ddatgelu, efallai y bydd yn briodol i chi ddweud wrth y claf y gallai eu penderfyniad arwain at ganlyniadau niweidiol iddynt. Er enghraifft, gallai absenoldeb gwybodaeth am iechyd galwedigaethol beri anfantais i'r claf yn ystod trafodaethau gyda'u cyflogwr. Rhaid i chi, fodd bynnag, gydymffurfio â dymuniadau'r claf oni bai bod y datgeliad yn ofynnol yn unol â'r gyfraith (gweler paragraff 14) neu bod modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd (gweler paragraff 15).
- 12 Os bydd claf yn tynnu eu caniatâd yn ôl i adroddiad gael ei ddatgelu, neu os na fyddant yn mynychu apwyntiad, mae modd i chi hysbysu comisiynydd yr adroddiad ond ni ddylech ddatgelu unrhyw wybodaeth bellach.
- 13 Pan fyddwch yn teimlo'n fodlon y dylid datgelu adroddiad, dylech gwblhau'r adroddiad a'i anfon heb unrhyw oedi afresymol.

Datgeliadau sy'n ofynnol yn unol â'r gyfraith

- 14 Rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth os yw'n ofynnol yn unol â'r gyfraith neu gan y llysoedd. Os bydd angen gwneud datgeliad yn unol â'r gyfraith, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 87–94 *Cyfrinachedd*. Os nad ydych yn siŵr a yw datgeliad yn ofynnol yn unol â'r gyfraith, dylech ofyn i'r unigolyn neu'r corff sy'n gofyn am y wybodaeth i nodi'r sail gyfreithiol, neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Datgeliadau er budd y cyhoedd

- 15 Gallai fod modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol am glaf heb sicrhau eu caniatâd er budd y cyhoedd os allai methu gwneud hynny olygu bod eraill mewn perygl o ddiweddef niwed difrifol neu farwolaeth. Gallai hyn godi, er enghraifft, os allai claf beri risg difrifol i eraill oherwydd nad ydynt yn ffit i weithio neu os yw'r amodau yn y gwaith yn annigol.⁹ Os ydych o'r farn y byddai modd cyfiawnhau datgeliad er budd y cyhoedd efallai, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 63–70 *Cyfrinachedd*.

Ôl-nodion

- 1 Mae modd i chi weld *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*, a gweddill ein harweiniad, ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 2 Mae'r term 'claf' yn yr arweiniad hwn yn cyfeirio at gyflogaeth, cleientiaid, hawlwr, athletwyr ac unrhyw un arall yr ydych yn dal gwybodaeth bersonol amdanynt neu y mae modd i chi droi at wybodaeth bersonol amdanynt, os ydych yn gofalu amdanynt mewn perthynas therapiwtig draddodiadol neu beidio.
- 3 Efallai y bydd meddygon yn darparu eu gwasanaethau i glybiau chwaraeon proffesiynol (pan fo'r rhwymedigaeth ddeuol i'r claf ac i'r clwb, sy'n debyg iawn i rwymedigaeth ddeuol meddyg iechyd galwedigaethol) neu i gymdeithasau (lle y mae'r rhwymedigaeth ddeuol i'r claf ac i gorff llywodraethu neu dîm o ddetholwyr).
- 4 Gallai datgelu'r cofnod cyfan dorri egwyddorion *Deddf Diogelu Data 1998*, oherwydd gallai'r cofnod llawn gynnwys gwybodaeth ormodol ac nad yw'n berthnasol i'r diben. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi cyngori nad yw hi'n briodol i gwmnïau yswiriant sicrhau cofnodion meddygol gan ddefnyddio ceisiadau gwrthrych am wybodaeth cleifion. Mae *Deddf Mynediad i Adroddiadau Meddygol 1988* yn rhoi llwybr cyfreithiol clir a sefydledig i gwmnïau yswiriant droi at wybodaeth feddygol, gan ddiogelu hawliau cleifion ar yr un pryd. Mae modd i chi weld datganiad ICO trwy droi at <https://ico.org.uk/about-the-ico/news-and-events/news-and-blogs/2015/07/insurers-using-subject-access-requests-to-see-medical-information/>.
- 5 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi cyngor am adroddiadau at ddibenion budd-daliadau. Gweler www.gov.uk/government/collections/healthcare-practitioners-guidance-and-information-from-dwp.
- 6 Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chymdeithas Feddygol Prydain yn cyhoeddi ffurflenni caniatâd model ar y cyd, sy'n awdurdodi rhyddhau cofnodion iechyd i gyfreithwyr dan *Ddeddf Diogelu Data 1998*. Mae'r ffurflenni yn cynnwys nodiadau i gleientiaid, cyfreithwyr a rheolwyr cofnodion meddygol. Mae modd i chi eu gweld trwy droi at www.bma.org.uk/support-at-work/ethics/confidentiality-and-health-records.
- 7 Gweler *Arfer meddygol da*, paragraffau 71–74, y mae modd i chi eu gweld trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 8 Dan *Ddeddf Mynediad i Adroddiadau Meddygol 1988*, mae gan gleifion yr hawl i weld adroddiad a ysgrifennwyd amdanynt at ddibenion cyflogaeth neu yswiriant gan feddyg sy'n gyfrifol neu sydd wedi bod yn gyfrifol am ofal clinigol yr unigolyn cyn iddo gael ei anfon, oni bai bod eithriadau'n berthnasol. Mae gan gleifion yr hawl i ofyn i'r meddyg ddiwygio unrhyw ran o'r adroddiad sy'n anghywir neu sy'n gamarweiniol ym marn y claf, ac i dynnu eu caniatâd yn ôl i ryddhau'r wybodaeth. Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i adroddiadau at ddibenion budd-daliadau. Os nad oes gan y claf hawl gyfreithiol i weld yr adroddiad cyn iddo gael ei anfon, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 115(d) *Cyfrinachedd*, a atgynhychir ar ddechrau'r arweiniad esboniadol hwn. Os oes unrhyw rai o'r eithriadau a nodir ym mharagraff 115(d) yn berthnasol, dylech ddatgelu cymaint o'r adroddiad ag y gallwch o hyd.
- 9 Mae *Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 a Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (Gogledd Iwerddon) 1997* yn rhoi dyletswyddau ar gyflogwyr, yr hunangyflogedig a phobl sy'n rheoli safleoedd gwaith i adrodd am ddamweiniau difrifol penodol sy'n digwydd yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodedig (achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd). Mae modd i chi gael gwybod mwy am y rheoliadau hyn ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban: www.hse.gov.uk, a gwefan yr Awdurdod.